

Alun Davies AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a
Gwasanaethau Cyhoeddus
Cabinet Secretary for Local Government and Public
Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref ARD/00656/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@gov.wales

2 Hydref 2018

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Medi 2018 yn gofyn am fy marn ar e-ddeiseb P-05-845 *Rhowch Derfyn ar Wrthdaro Buddiant yng Nghyfansoddiad Awdurdodau Lleol*.

Disgwylir gweithwyr Llywodraeth Leol yng Nghymru (ac eithrio diffoddwyr tân ac athrawon, ceir trefniadau ar wahân ar eu cyfer) i gadw at ddarpariaethau cod ymddygiad safonol a ragnodir gan y 'Gorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001.'

Nodir y cod ymddygiad, ymhlith pethau eraill, bod rhaid i weithwyr gweithredu gydag unplygrwydd, gonestrwydd, didueddrwydd a gwrthrychedd wrth gyflawni eu dyletswyddau. Mae'n rhaid iddynt beidio â gadael i'w buddiannau preifat wrthdaro â'u dyletswyddau cyhoeddus a rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw reolau eu hawdurdod ar gofrestru a datgan buddiannau ariannol ac anariannol.

O dan delerau adran 82(7) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, mae'r cod ymddygiad yn ffurfio rhan o'r telerau penodi neu amodau cyflogaeth gweithwyr cymwys. Unrhyw fethiant gan gyflogai i gydymffurfio â'r cod ymddygiad yn fater i'r awdurdod lleol dan sylw fel y cyflogwr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae angen i swyddogion cynllunio awdurdodau lleol ynghyd â swyddogion eraill i gyd gadw at god ymddygiad eu hawdurdod. Nid yw hyn yn rhwystro iddynt rhag ymgymryd â gwaith yn eu maes y tu allan i ardal o gyfrifoldeb eu hawdurdod, cyhyd ag y cofrestrir eu buddiannau preifat yn briodol yn unol â'r rheolau ac nid ydynt yn caniatáu i'w buddiannau preifat wrthdaro â'u dyletswydd gyhoeddus.

Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o gynllunwyr tref yng Nghymru yn aelodau o'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI). Gellir honiadau bod aelodau RTPI wedi ymddwyn yn anfoesol cael eu hystyried gan Bwyllgor Safonau'r RTPI.

Credaf fod y trefniadau presennol yn ddigonol, a dyletswydd yr awdurdodau lleol yw monitro a gorfodi'r cod ymddygiad presennol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Alun', with a horizontal line underneath it.

Alun Davies AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Cabinet Secretary for Local Government and Public Services